# Nodyn i Ddarlledwyr: Gwleidyddion yn cyflwyno rhaglenni ar y teledu a'r radio

Heddiw, rydyn ni'n:

- **cyhoeddi ymchwil newydd** ar agweddau cynulleidfaoedd tuag at wleidyddion yn cyflwyno rhaglenni ar deledu a radio;
- **cyhoeddi diweddariad i'n canllawiau** ar reolau perthnasol yn Adran Pump y Cod Darlledu i adlewyrchu ein dull rheoleiddio fel y nodir mewn cyfres o Benderfyniadau a gyhoeddwyd ar 18 Mawrth 2024, ynghylch gwleidyddion yn cyflwyno;
- **atgoffa pob darlledwr** o'r gofynion llymach o ran didueddrwydd dyladwy sy'n berthnasol yn ystod cyfnod etholiadau; a
- **rhoi gwybod i ddarlledwyr sy'n defnyddio gwleidyddion fel cyflwynwyr** bod yn rhaid iddynt gymryd gofal penodol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion llymach hyn yn y Cod yn ystod cyfnod etholiadau.

## Ymchwil cynulleidfa newydd

Fe wnaethom gomisiynu'r ymchwil hon y llynedd ar ôl gweld cynnydd yn nifer y rhaglenni a gyflwynir gan wleidyddion a budd y cyhoedd yn y mater hwn. Edrychodd yr ymchwil ar ddealltwriaeth a disgwyliadau cynulleidfaoedd o gynnwys newyddion a materion cyfoes, agweddau at wleidyddion yn ei gyflwyno, a'r mesurau lliniaru y mae cynulleidfaoedd yn disgwyl eu gweld i sicrhau didueddrwydd dyladwy.

Mae'r canfyddiadau llawn wedi'u nodi mewn adroddiad ymchwil. Yn gryno, mae'r ymchwil yn darparu tystiolaeth newydd allweddol:

- Mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'n fawr iawn fod didueddrwydd dyladwy yn ofyniad sylfaenol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes.
- Maen nhw'n amlwg yn cydnabod pwysigrwydd newyddion a ddarlledir ac yn croesawu'r gofynion mwy llym o ran didueddrwydd dyladwy sy'n berthnasol iddo.
- Mae gwylwyr a gwrandawyr yn disgwyl i newyddion fod yn ffeithiol. Nid ydynt am weld na chlywed gwleidyddion yn cyflwyno cynnwys newyddion. Maen nhw'n teimlo'n gryf fod gan bob gwleidydd safbwynt plaid a fyddai'n cwestiynu didueddrwydd dyladwy'r newyddion, pe byddai'n cael ei gyflwyno ganddyn nhw.
- Mae cynulleidfaoedd yn cydnabod gwahanol elfennau golygyddol mewn cynnwys newyddion o'i gymharu â chynnwys materion cyfoes, ond weithiau mae'n anodd categoreiddio'r cynnwys fel un neu'r llall, yn enwedig os yw'n cynnwys newyddion a materion cyfoes. Fodd bynnag, maen nhw'n derbyn y gall rhaglen gynnwys y ddau fath o gynnwys.

- Roedd y farn yn fwy cymysg ynghylch a ddylai gwleidyddion gyflwyno cynnwys materion cyfoes. Roedd y cyfranogwyr yn gweld manteision ac anfanteision i wleidyddion yn cyflwyno cynnwys materion cyfoes, fel atebolrwydd i'r cyhoedd a mwy o dryloywder, ond roedden nhw'n poeni am begynnu posibl a diffyg arbenigedd newyddiadurol.
- Yn gyffredinol, gan ystyried rhyddid mynegiant, nid oedd consensws bod cyfiawnhad dros wahardd gwleidyddion yn llwyr rhag cyflwyno cynnwys materion cyfoes. Ond, mae cynulleidfaoedd yn disgwyl i ddarlledwyr gymryd mwy o ofal i sicrhau didueddrwydd dyladwy yn yr amgylchiadau hyn. Mynegodd y cyfranogwyr eu barn am wahanol ffactorau golygyddol a oedd, yn eu barn nhw, yn bwysig er mwyn sicrhau hyn.

## Diweddaru'r canllawiau ar gyfer rheolau perthnasol yn Adran Pump y Cod

Mae ein holl ymchwil cynulleidfa yn llywio sut rydyn ni'n defnyddio'r Cod ac a oes angen i ni ystyried newidiadau posibl i unrhyw elfennau ohono.

Yn ein barn ni, yn gyffredinol, mae'r ymchwil rydyn ni'n ei chyhoeddi heddiw yn cefnogi ymdriniaeth bresennol y Cod o wleidyddion fel cyflwynwyr. Mae rheol 5.1 yn mynnu bod newyddion yn cael ei gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy ac yn cael ei adrodd yn gywir. Mae Rheol 5.3 yn atal gwleidyddion rhag bod yn ddarllenwyr newyddion, cyfwelwyr neu ohebwyr mewn unrhyw raglenni newyddion oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny mewn achosion eithriadol. Gall gwleidyddion gyflwyno cynnwys materion cyfoes ar yr amod bod didueddrwydd dyladwy yn cael ei gynnal.

Ar 18 Mawrth 2024, fe wnaethom gyhoeddi cyfres o Benderfyniadau am raglenni a gyflwynwyd gan wleidyddion a oedd wedi torri Rheolau 5.1 a 5.3 y Cod. Penderfyniadau a oedd yn gosod cynsail yn y maes hwn oedd y rhain, ac fe'u cymerwyd yn benodol o'r gwaith rydyn ni wedi'i gomisiynu ar yr ymchwil rydyn ni'n ei chyhoeddi heddiw, ac nid oeddent yn seiliedig ar y gwaith hwnnw. Gan nad yw'r ymchwil newydd yn darparu tystiolaeth o'r angen i Ofcom newid y Cod na'n dull presennol o'i ddefnyddio, rydyn ni'n manteisio ar y cyfle hwn i gyhoeddi **diweddariad i'r canllawiau** i Adran Pump, sy'n adlewyrchu'r dull gweithredu a nodir yn y Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 18 Mawrth 2024.

## Gwleidyddion yn gweithredu fel cyflwynwyr mewn rhaglenni etholiadol

Ar 4 Mawrth 2024, fe wnaethom gyhoeddi Nodyn i Ddarlledwyr ar raglenni etholiadol cyn yr etholiadau amrywiol a fydd yn cael eu cynnal ar 2 Mai 2024. Hefyd, rhaid cynnal Etholiad Cyffredinol nesaf y DU erbyn 28 Ionawr 2025. Dylai pob darlledwr gyfeirio at ein nodyn dyddiedig 4 Mawrth 2024 i'w atgoffa o ofynion llymach y Cod sy'n berthnasol i raglenni etholiadol.

Mae'r lefel uchaf o ddidueddrwydd dyladwy yn berthnasol yn ystod cyfnod etholiadau, a rhaid i gynnwys newyddion a materion cyfoes gydymffurfio â'r holl reolau perthnasol yn Adrannau Pump a Chwech y Cod yn ystod y cyfnodau hynny. Rydyn ni'n debygol o ystyried bod torri Adrannau Pump a Chwech mewn rhaglenni etholiadol yn fater difrifol.

Cyfrifoldeb y darlledwr yw sicrhau bod didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni o'r fath yn cael ei gynnal. Mae'n fater golygyddol i'r darlledwr o ran sut mae'n dewis cynnal didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni o'r fath, ac mae amrywiaeth o dechnegau golygyddol y gall eu defnyddio i wneud hyn, fel y nodir yn fanwl yng nghanllawiau ein Cod a phenderfyniadau blaenorol.

Yn benodol, rydyn ni'n atgoffa darlledwyr bod Rheol 6.6 y Cod yn atal ymgeiswyr yn etholiadau'r DU (a chynrychiolwyr cyfranogwyr cymeradwy yn refferenda'r DU) rhag gweithredu fel cyflwynwyr newyddion, cyfwelwyr neu gyflwynwyr mewn unrhyw raglen yn ystod cyfnod yr etholiad.

Gall gwleidyddion nad ydynt yn sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiad yn y DU gyflwyno rhaglenni (gan gynnwys rhaglenni materion cyfoes ond nid newyddion) yn ystod cyfnod etholiadau, ar yr amod bod y rhaglenni'n cydymffurfio â holl reolau perthnasol y Cod.

**Rydyn ni'n disgwyl i ddarlledwyr sy'n defnyddio gwleidyddion fel cyflwynwyr roi sylw penodol i'n hymchwil newydd a gyhoeddwyd heddiw, canllawiau Adran Pump sydd wedi'u diweddaru, a'n Penderfyniadau diweddar ar wleidyddion yn gweithredu fel cyflwynwyr. Dylai darlledwyr nodi, yng ngoleuni'r cyhoeddiadau hyn, ein bod yn debygol o ystyried bod torri'r rheolau didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni etholiadol a gyflwynir gan wleidyddion (nad ydynt yn sefyll) yn fater difrifol, ac mae'n bosib y byddwn yn ystyried rhoi sancsiynau statudol.**

Fel yn ystod cyfnodau etholiadau blaenorol, bydd Ofcom yn cyflymu'r gwaith o asesu ac ymchwilio i raglenni etholiadol rydyn ni'n cael cwynion amdanyn nhw neu raglenni rydyn ni'n sylwi arnyn nhw ein hunain. Bydd ein Pwyllgor Etholiadau yn ystyried unrhyw faterion sylweddol yn ymwneud â'r Cod sy'n cyfiawnhau ymchwiliad a phenderfyniad yn ystod cyfnod etholiadau.